CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Talu am Wasanaethau Preswyl a Nyrsio 2025-2026

**This form is also available in English**

**Pwy sy'n talu?**

Fel arfer codir tâl am wasanaethau sy'n cael eu darparu gan Wasanaethau Cymdeithasol. Er mwyn sicrhau eich bod yn gallu fforddio'r costau, byddwn yn cwblhau 'asesiad ariannol'. Byddwn hefyd yn trefnu gwiriad budd-dal hawliau lles i wneud yn siŵr eich bod yn hawlio popeth y mae gennych hawl i'w dderbyn.

Fel arfer mae gwasanaethau am ddim os ydych:

- o dan18 oed; ac yn
- cael help o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

**Yr asesiad ariannol**

Mae disgwyl i'r rhan fwyaf o bobl gyfrannu tuag at gost eu gofal mewn Cartref Preswyl neu Nyrsio. Pan nad yw rhywun yn gallu fforddio cost llawn lleoliad mewn Cartref Preswyl neu Nyrsio, mae'n bosibl iddyn nhw gael cymorth ariannol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Bydd y cymorth hwn ar gael yn unig ar ôl cynnal asesiad llawn o anghenion gofal yr unigolyn, ynghyd ag asesiad ariannol o'u modd. Caiff pob asesiad ariannol ar gyfer gofal mewn Cartref Preswyl neu Nyrsio ei gyfrifo yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Mae'n bosibl i gostau llawn rhai pobl mewn Cartrefi Nyrsio gael eu talu gan y Bwrdd Iechyd Lleol. Mae hyn yn digwydd os bydd yr unigolyn yn bodloni meini prawf cymhwysedd y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer gofal nyrsio parhaus, a bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu darparu'r gofal iechyd parhaus hwnnw mewn Cartref Nyrsio.

Fodd bynnag, mae gan bawb sydd wedi cael asesiad gan y Bwrdd Iechyd Lleol ac sydd angen gofal nyrsio hawl i gael grant 'Gofal Nyrsio am Ddim' o £224.26 yr wythnos, os ydyn nhw'n cael cymorth ariannol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ai peidio.

Mae ffioedd Cartrefi Preswyl neu Nyrsio'n amrywio ar sail eich anghenion gofal a aseswyd (ceir rhestr lawn o ffioedd ar dudalen 6). Nodwch, oni bai eich bod yn agored i dalu'r ffioedd llawn, ni fydd eich cyfraniad yn cael ei effeithio gan y categori gofal a dderbyniwch.

**<u>Oes gen i hawl i gael cymorth o ffynonellau cyhoeddus?</u>**

Os yw eich cynilion yn fwy na £50,000, bydd raid i chi dalu cost lawn eich gofal, nes bod eich cynilion yn gostwng o dan £50,000.

Cysylltwch â'r Uned Asesu Ariannol (manylion cyswllt ar dudalen 4) os oes gennych chi Fondiau, ac eithrio Bondiau Cynilion Cenedlaethol, gan nad yw rhai Bondiau'n cael eu trin fel cyfalaf.

**Beth bynnag fo eich amgylchiadau bydd gennych o leiaf lwfans personol o £44.65 yr wythnos. Ni ellir gofyn i chi ddefnyddio'r lwfans personol hwn i dalu am ffioedd Cartrefi Preswyl neu Nyrsio.**

**<u>Faint sydd yn rhaid i mi ei dalu?</u>**

Does dim un ateb y gellir ei roi – mae'n dibynnu ar nifer o ffactorau yn cynnwys:
os ydych yn cael gofal seibiant byr neu'n aros am gyfnod hirach;
os oes gennych bartner sy'n dal i fyw gartref;
eich incwm wythnosol, yn cynnwys eich pensiwn;
pa lwfansau eraill y mae gennych hawl i'w derbyn;
swm eich cynilion ac asedau eraill;
a ydych chi'n berchen ar ty/tai/tir.

**<u>Faint fydd y gofal seibiant yn ei gostio?</u>**

Y person sy'n cael y gofal seibiant yw'r person sy'n gymwys i dalu am y gwasanaeth. Er mis Ebrill o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae ein dull ni o godi am ofal seibiant wedi newid.

Os byddwch chi'n cael gofal seibiant am gyfnod sy'n llai nag 8 wythnos yn olynol cewch chi eich asesu'n ariannol yn yr un modd â phe baech chi'n cael gofal cymunedol a gwasanaethau cymorth o dan ein polisi codi dibreswyl.

Y cyfraniad ar gyfer gofal seibiant yw £27.60 y awr. Uchafswm y cyfraniad y gellir ei godi yw £100.00 yr wythnos. Bydd hyn yn cynnwys y cyfraniad a dalwch chi at unrhyw ofal cymunedol a wasanaethau cymorth.

Mae'r wythnos hon yn rhedeg o ddydd Sul i ddydd Sadwrn. O'r herwydd, os cewch chi 7 niwrnod olynol o ofal seibiant sy'n disgyn dros 2 wythnos godi, codir ar gyfer nifer y diwrnodau yr ydych chi wedi eu cael ym mhob wythnos godi ar wahân.

Os estynnir eich arhosiad mewn cartref gofal a'i fod yn hwy nag 8 wythnos, bydd y modd y codir arnoch yn newid. Ar ôl yr 8 wythnos cewch chi eich asesu'n ariannol o dan ein Polisi Codi Preswyl.

Os oes angen i chi gael arhosiad dros dro mewn cartref gofal ac os gwyddys bod cyfnod y gwneir cais amdano yn hwy nag 8 wythnos ar ddechrau'r gwasanaeth, codir arnoch chi a'ch asesu'n ariannol o dan ein Polisi Codi Preswyl o ddiwrnod cyntaf eich arhosiad ymlaen.

## Sut ydw i'n cael gwybod?

Bydd un o weithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n cwblhau ffurflen Hawlio Cymorth Ariannol gyda chi (gyda help eich teulu neu ofalwr(wyr) os ydych yn dymuno). Bydd y ffurflen hon yn gofyn am fanylion ynglŷn ag amgylchiadau teuluol, trefniadau o ran eich cartref, eich incwm a'ch cynilion. Gwnewch yn siŵr bod yr wybodaeth a roddwch mor gywir â phosibl.

Unwaith y bydd yr Uned Asesu Ariannol wedi derbyn y ffurflen, cewch amcangyfrif o'r ffi wythnosol. Os ydych yn debygol o fynd yn syth o'r ysbyty i gartref, gall Gweithwyr Cymdeithasol yr ysbyty eich helpu.

## Pa wybodaeth y mae angen i mi ei rhoi?

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o'r holl gyfalaf, cynilion a buddsoddiadau os ydyn nhw'n dod i gyfanswm o £6,000 neu fwy os ydych yn 59 oed neu'n iau, a £10,000 os ydych yn 60 oed neu fwy. Os yw'r swm yn is na hyn nid oes angen i chi ddarparu tystiolaeth.

Wrth gyfeirio at gyfalaf, cynilion a buddsoddiadau, yr hyn a olygir yw'r arian sydd mewn cyfrifon cyfredol a chyfrifon cynilion gyda banciau/cymdeithasau adeiladu, cyfrifon yn Swyddfa'r Post, Bondiau Premiwm, Tystysgrifau Cynilion Cenedlaethol, ISAs, cyfandaliadau a stociau ac ymddiriedolaethau buddsoddi drwy unedau. Mae angen i ni weld tystiolaeth o unrhyw log/difidend yr ydych yn ei dderbyn am gynilion a buddsoddiadau.
Rhaid i'r dystiolaeth y byddwch yn ei hanfon ddangos manylion y ddau fis diwethaf o leiaf.

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o unrhyw incwm yr ydych yn ei dderbyn fel Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth neu Bensiwn Galwedigaethol ac ati am y ddau fis diwethaf o leiaf.

## Sut ydw i'n talu?

Rhaid talu eich cyfraniad yn uniongyrchol i'r cartref, fel arfer bob mis neu bob wythnos. Gall eich materion ariannol gael eu rheoli gan drydydd parti, cyn belled bod yr unigolyn yma wedi ei gofnodi fel eich cynrychiolydd apwyntiedig.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno ar ffi wythnosol gyda'r cartrefi, ac ni fyddan nhw'n talu am gartref mwy costus oni bai bod rhesymau arbennig am hynny. Gall yr unigolyn ddewis cartref mwy costus ar yr amod bod trydydd parti sy'n fodlon talu'r gost ychwanegol. Fodd bynnag, ni all unigolyn ddefnyddio ei adnoddau ef neu hi i dalu am lety mwy costus, h.y. gweithredu fel eu trydydd parti eu hunain os ydyn nhw angen cymorth ariannol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Fydd yn rhaid i fy Ngŵr neu fy Ngwraig dalu unrhyw beth?**

Mae’r asesiad ariannol yn seiliedig ar eich asedau chi yn unig ynghyd â’ch cyfran o unrhyw asedau ar y cyd.

**Beth fydd yn digwydd i fy nhŷ?**

Ni fydd eich eiddo’n cael ei ystyried os ydych chi’n aros dros dro mewn Cartref Preswyl neu Nyrsio.

Os ydych yn byw yno’n barhaol, a bod gennych lai na £50,000 o gyfalaf, am y 12 wythnos gyntaf o’ch arhosiad, ni fydd eich tŷ’n cael ei ystyried i gyfrifo’r swm a dalwch. Yn dilyn y cyfnod 12 wythnos yma mae’r rheolau yn gysylltiedig ag eiddo’n eithaf cymhleth ac felly mae angen i ni weld manylion eich amgylchiadau cyn y gallwn roi ateb penodol. Fodd bynnag, ni fydd eich cartref yn cael ei ystyried;

- tra bod eich partner neu berthnasau dibynnol (o dan 16 oed neu unigolyn ag analluedd) yn dal i fyw yno;
- mewn rhai amgylchiadau, tra bod eich gofalwr sy’n byw i mewn (sydd wedi rhoi’r gorau i’w cartref eu hunain) yn dal i fyw yno;
- neu os ydych yn aros yn y cartref am gyfnod seibiant neu dymor byr.

Mewn rhai amgylchiadau efallai bydd yn briodol gosod pridiant cyfreithiol ar yr eiddo. (Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i chi werthu eich tŷ ar hyn o bryd, ond pan gaiff ei werthu yn y pendraw, bydd yr Awdurdod Lleol yn gallu adennill unrhyw gostau sy’n ddyledus). Ni chodir unrhyw log ar unrhyw ddyled o'r fath yn ystod oes yr unigolyn.

Mae'n bwysig i chi wybod os byddwch yn trosglwyddo eich tŷ i rywun arall, neu’n gwaredu unrhyw asedau er mwyn lleihau’r swm y bydd yn rhaid i chi ei dalu am lety, yna gallai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gymryd yr asedau hyn i ystyriaeth fel pe baech yn dal yn berchen arnyn nhw.

Os ydych chi’n aros yn y cartref i gael gofal seibiant neu dymor byr, am y 12 wythnos gyntaf fel arfer byddwch yn gallu cadw swm sefydlog ar gyfer talu costau rhedeg eich cartref (fel arfer £20 os ydych yn byw ar eich pen eich hun, a £10 os ydych yn rhannu eich llety).

**O ble alla i gael rhagor o gyngor?**

Bydd Gweithwyr Cymdeithasol i bobl hŷn, pobl ag anableddau neu nam ar y synhwyrau a phobl ag anableddau dysgu’n ceisio ateb eich cwestiynau. Gallwch gysylltu â nhw trwy’r Tîm Mynediad Conwy yn:

Ystafell Tim Mynediad Conwy
Coed Pella
Ffordd Conwy
Bae Colwyn
Conwy
LL29 7AZ
Rhif ffôn; 0300 4565411

Mae swyddogion asesu ariannol ar gyfer gofal Cartrefi Preswyl a Nyrsio wedi eu lleoli yn:

Coed Pella
Ffordd Conwy
Bae Colwyn
LL28 4AZ
Rhif ffôn; 01492 574122

Mae cyngor annibynnol ar gael gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Neuadd y Dre
Llandudno
LL30 2UP
Rhif ffôn;  0844 4772020

Mae taflen ffeithiau ddefnyddiol ar gael gan:

Age Connects
Canol Gogledd Cymru
15 Styd y Bont
Dinbych
Rhif ffôn; 01745 816947

**Beth arall mae angen i chi wybod?**

**Os bydd pethau'n mynd o'i le**

Os ydych chi'n meddwl bod rhywbeth wedi mynd o'i le, rhowch wybod i ni fel y gallwn ni geisio ei gywiro. Mae ein trefn gwyno'n hawdd ei defnyddio ac mae'n helpu i sicrhau gwasanaeth cyfatal bob amser:

Trwy ffonio; 01492 574103
Trwy ymweld neu ysgrifennu i; Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn. LL29 7AZ
a
Thrwy e-bost cssc@conwy.gov.uk

Os ydych yn cwyno, byddwn yn:

Anelu at ymateb i'ch cwyn o fewn pum diwrnod gwaith o'i dderbyn, gydag ymateb llawn o fewn 15 diwrnod; a
Byddwn yn gwerthuso ein cwynion i geisio gwella ein gwasanaeth.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut i gwyno o'n taflen 'Sut ydw i'n cwyno neu'n gwneud sylwadau?' sydd ar gael yn unrhyw un o'n swyddfeydd.

**Diogelu Data: Ni, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, sy'n rheoli'r data i bwrpas Deddf Diogelu Data 1998.**

**Os hoffech gael gwybod mwy ynglŷn â pha wybodaeth sydd gennym amdanoch, neu'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth, gofynnwch i ni.**.

**Os ydych eisiau copi o'r daflen hon yn Gymraeg, Braille neu brint trwm, cysylltwch â'r swyddfa hon. Hefyd mae gennym fynediad at linell ieithoedd.**


**Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg**
Coed Pella
Ffordd Conwy
Bae Colwyn
LL28 4AZ
Rhif ffôn: 01492 574122
E-bost: fao@conwy.gov.uk
Gwasanaeth BT Text Relay: 18001 01492 574122

Hefyd mae gennym fynediad at linell ieithoedd sy'n wasanaeth cyfieithu 24 awr dros y ffôn.

**Rhestr o ffioedd o Ebrill 2025 i Fawrth 2026**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cytuno ar ffi wythnosol gyda chartrefi (rhestr or ffioed isod), a bydd yn talu am gartref drytach dim on os oes rhesymau arbenning. Gall y preswylydd ddewis catref drytach cyn belled bod tryddyd parti yn fodlon talu'r costau ychwanegol. Ond, ni all preswylydd ddefnyddio ei adnoddau ei hun i dalu am y llety drytach h.y. gweithredu fel eu trydd parti eu hunain os ydynt angen cymorth ariannol gan Gyngor Bwredeistref Sirol Conwy.

| **Gofal Preswyl** | Yr Wythnos |
|---|---|
| Pobl hŷn | £905.52 |
| Pobl hŷn dibynnol iawn | £995.33 |
| Pobl â salwch meddwl | £905.52 |
| Pobl ag anableddau dysgu | £905.52 |
| Pobl ag anabledd corfforol | £995.33 |
| Pobl â phroblem gyffuriau neu alcohol | £905.52 |
| Pobl hŷn â phroblem iechyd meddwl | £995.33 |
| Angen arbennig eithriadol: bydd y Gweithiwr/aig Cymdeithasol yn penderfynu ar y swm hwn | |

| **Cartrefi gofal nyrsio** | Yr Wythnos |
|---|---|
| Pobl hŷn | £1,325.75 |
| Pobl â salwch meddwl | £1,385.18 |
| Pobl hŷn â phroblem iechyd meddwl (mewn cartref nyrsio) | £1,325.75 |
| Pobl ag anableddau dysgu | £1,325.75 |
| Pobl ag anabledd corfforol | £1,325.75 |
| Pobl â phroblem gyffuriau neu alcohol | £1,325.75 |

| **Cartrefi awdurdod lleol** | Yr Wythnos |
|---|---|
| Pobl hŷn (dros dro) | £995.33 |
| Pobl hŷn (parhaol) | £995.33 |
| Pobl â salwch meddwl | £995.33 |

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gofal Preswyl/Nyrsio

Enw'r Cleient: ................................................... Rhif Gwasanaethau Cymdeithasol: ........................ Cyfeiriad y Cleient: .............................................................................................................................

Enw'r Gweithiwr Cymdeithasol: ..........................................................................................................

Mae'r unigolyn sy'n rhoi'r ffurflen hon i chi'n gweithio i Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC), ac mae'n fodlon dangos cerdyn adnabod os bydd angen. Mae ef/hi'n fodlon ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am eich gofal ac os oes unrhyw dâl am y gofal hwnnw.

"Gofal preswyl" yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio lle mewn cartref gofal/nyrsio.

**Gofal Preswyl**

Mae CBSC, fel bob Cyngor arall, yn gorfod codi tâl am ofal preswyl sy'n cael ei drefnu ar eich cyfer, a bydd y tâl hwn, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, yn cael ei dalu o'r dyddiad yr ydych yn derbyn y gofal. Mae eithriadau prin lle na all y Cyngor godi tâl arnoch chi. Bydd y swm y byddwch yn ei dalu'n dibynnu ar eich amgylchiadau ariannol, felly bydd asesiad ariannol yn cael ei gynnal i benderfynu ar y swm y byddwch yn ei dalu. Bydd yr asesiad ariannol yn gofyn am fanylion llawn eich cyfrif banc, unrhyw gynilion eraill yn ogystal â'ch incwm o unrhyw ffynhonnell arall. Os oes gennych gyfalaf dros £50,000 (2025/26), bydd yn rhaid i chi dalu am eich gofal preswyl yn llawn, o leiaf nes bydd eich cyfalaf yn gostwng o dan £50,000 (2025/26). Gallwch ddewis peidio â chael asesiad ariannol a thalu am y gofal preswyl eich hun.

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn gosod tâl safonol ar gyfer cartrefi gofal yng Nghonwy. Ond, mae rhai cartrefi gofal yn codi mwy na'r tâl safonol ac yn codi "swm ychwanegol" neu "dâl trydydd parti". Mewn amgylchiadau prin, efallai byddwch yn gallu talu'r tâl "ychwanegol" hwn eich hun, ond yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd angen i chi gael perthynas, ffrind neu unigolyn neu sefydliad arall, i dalu'r tâl trydydd parti i chi. Tra
bod gennych hawl i symud i gartref gofal o'ch dewis, mae'r dewis hwnnw'n amodol nad yw'r cartref gofal yn codi mwy na'r tâl safonol. Os yw'n gwneud, cyfrifoldeb y trydydd parti fydd talu'r 'tâl ychwanegol' yn uniongyrchol i'r cartref gofal.

**Llenwch y canlynol:-**

1. Buaswn yn hoffi cymorth i dalu costau fy ngofal preswyl a byddaf yn rhoi manylion llawn fy amgylchiadau ariannol.

☐ BUASWN ☐ NA FUASWN*

**Os mai "BUASWN" yw'r ateb, ewch i gwestiwn 3.**

***Os mai "NA FUASWN" yw'r ateb, sylwch:** *Rwyf yn deall na ddylwn gael gwared ar unrhyw eiddo, asedau neu adnoddau ariannol gyda'r bwriad o leihau fy atebolrwydd i dalu am wasanaethau preswyl. Os byddaf yn gwneud hynny, rwy'n deall y gallai'r Cyngor ystyried bod yr adnoddau hynny yn dal yn fy meddiant.*

2. Rwy'n dymuno talu'r tâl llawn am fy ngofal preswyl; nid wyf eisiau asesiad ariannol ar hyn o bryd ond rwy'n deall y gallaf ofyn am asesiad os neu pan fydd fy amgylchiadau ariannol yn newid.

☐ YDW ☐ NAC YDW

3. Buaswn yn hoffi i aelod o fy nheulu, ffrind, gofalwr fod yn rhan o fy nhrefniadau gofal.

☐ BUASWN ☐ NA FUASWN

Os mai "BUASWN" yw'r ateb, dyma'r enw a'r cyfeiriad:

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

4. Rwyf yn deall cynnwys y ffurflen hon a bod tâl posibl am fy ngofal.

☐ YDW ☐ NAC YDW

5. Rwyf yn deall y gofynnir i mi lofnodi contract os byddaf yn symud i gartref gofal.

☐ YDW ☐ NAC YDW

6. Os nad wyf yn deall y ffurflen hon, rwyf yn deall y gallaf ofyn i Weithiwr Cymdeithasol, ffrind, perthynas, gofalwr neu gyfreithiwr fy helpu.

☐ YDW ☐ NAC YDW

**Nodwch:** Rhaid i chi roi gwybod i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) os oes unrhyw newid yn eich amgylchiadau neu sefyllfa ariannol e.e. os ydych chi'n penderfynu symud i gartref gofal. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod i'r DWP am unrhyw Lwfans Mynychu neu Lwfans Anabledd yr ydych ei dderbyn, oherwydd gallai symud i gartref gofal effeithio ar hyn.

**Llofnod:** ........................................................................................ **Dyddiad:** ....................................

**Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, rhowch hi i'ch Gweithiwr Cymdeithasol.**